

Cwestiynau Cyffredinol mewn perthynas â'r cynllun

Cynnwys

Cwestiynau Cyffredinol mewn perthynas â'r cynllun.....	1
Beth y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud?	1
Beth yw'r Gwasanaeth Ymchwil?	1
A oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gall un brifysgol eu cyflwyno?	2
Pryd fydd y Gymrodoriaeth yn dechrau?	2
Beth fydd hyd y Gymrodoriaeth?.....	2
A yw'r patrwm gweithio yn batrwm hyblyg? A oes modd ymgymryd â Chymrodoriaeth yn rhan amser neu o bell, y tu allan i Gaerdydd?.....	2
Faint o ymrwymiad fydd ynghlwm wrth fod yn Gymrawd?.....	3
A fydd angen cliriad diogelwch?	3
Sut y caiff y Cymrodoriaethau eu hariannu?	3
Pa gostau fydd yn cael eu hysgwyddo?.....	4
Pwy sy'n berchen ar y deunydd?	4
Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?.....	4
Cwestiynau Cyffredinol ynghylch yr Alwad Agored	5
A yw'n bosibl trafod rhai syniadau am brosiectau ar gyfer yr Alwad Agored gyda rhywun cyn cyflwyno cais?	5
Sut fyddaf yn gwybod a yw fy mhrosiect yn berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?	5

Beth y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [wefan](#) y Cynulliad.

Beth yw'r Gwasanaeth Ymchwil?

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae wedi'i leoli yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Rydym yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru

Rydym yn darparu gwasanaethau arbenigol, diduedd a chyfrinachol ym maes ymchwil, dadansoddi a gwybodaeth i bob un o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff, gyda'r nod o ddiwallu eu hanghenion. Mae gennym wybodaeth helaeth am feysydd polisi yng Nghymru ynghyd ag arbenigedd dihafal o ran deall anghenion gwybodaeth Aelodau'r Cynulliad.

Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Ymchwil ar gael yn y [canllaw hwn](#).

A oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gall un brifysgol eu cyflwyno?

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gall sefydliadau unigol eu cyflwyno ar gyfer y cynllun. Mae sefydliadau unigol yn gyfrifol am benderfynu faint o geisiadau Cymrodoriaeth y maent am eu cefnogi. Dylai prifysgol fod yn fodlon â chyfanswm lefel y gefnogaeth a roddir os bydd pob cais a wneir gan y sefydliad hwnnw yn llwyddiannus.

Pryd fydd y Gymrodoriaeth yn dechrau?

Disgwylir i'r Cymrawd ddechrau o fis Ionawr 2019 ymlaen. Bydd yr union ddyddiad cychwyn yn cael ei gytuno ymlaen llaw rhwng y Gwasanaeth Ymchwil a'r Cymrawd. Dylai'r Cymrawd hefyd sicrhau bod y dyddiad cychwyn a gaiff ei gytuno yn dderbyniol i'w adran yn y brifysgol.

Y disgwyliad yw y bydd Gymrodoriaeth yn dechrau heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl i'r cais gael ei dderbyn.

Mae'n bwysig bod yr amserlen ar gyfer y prosiect hefyd yn rhoi ystyriaeth i anghenion y Cynulliad.

Beth fydd hyd y Gymrodoriaeth?

Nid oes cyfyngiad ar hyd y Gymrodoriaeth. Disgwylir y bydd y cyfnod dan sylw yn cael ei benderfynu fesul achos, yn seiliedig ar gytundeb rhwng yr academydd, y sefydliad academaidd a'r tîm ymchwil perthnasol, a hynny fel rhan o'r broses ymgeisio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, disgwylir y bydd y Gymrodoriaeth yn para mis ar y lleiaf a blwyddyn ar y mwyaf.

Er enghraifft, roedd Cymrodoriaethau y [chwe Chymrawd a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn 2017](#) wedi para tua 3-4 mis yr un, ac roeddent yn rhai rhan-amser.

Mae'n bwysig bod yr amserlen ar gyfer y prosiect hefyd yn rhoi ystyriaeth i anghenion y Cynulliad.

A yw'r patrwm gweithio yn batrwm hyblyg? A oes modd ymgymryd â Chymrodoriaeth yn rhan amser neu o bell, y tu allan i Gaerdydd?

Rydym yn awyddus i annog ymgeiswyr o bob cwr o'r DU.

Rydym yn rhagweld y bydd y Cymrawd yn treulio amser yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, ond bydd union hyd y cyfnod hwn a'r dyddiadau penodol yn cael eu trafod a'u cytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus a'i sefydliad academaidd.

Er mwyn cyd-fynd ag ymrwymadau academaidd presennol, rydym yn disgwyl y bydd y Cymrawd, fel rheol, yn ymgymryd â Chymrodoriaeth ran-amser yn y Cynulliad. Er enghraifft, roedd Cymrodoriaethau y chwe Chymrawd a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn 2017 wedi para tua 3-4 mis yr un, ac roeddent yn rhai rhan-amser.

Mae'n bwysig bod yr amserlen ar gyfer y prosiect hefyd yn rhoi ystyriaeth i anghenion y Cynulliad.

Faint o ymrwymiad fydd ynghlwm wrth fod yn Gymrawd?

Mae hyblygrwydd ynglŷn â'r ymrwymiad amser y bydd pob Cymrodoriaeth yn ei olygu.

Disgwylir y bydd cyfnod pob Cymrodoriaeth yn cael ei benderfynu fesul achos, yn seiliedig ar gytundeb rhwng yr academydd, y sefydliad academaidd a'r tîm ymchwil perthnasol, a hynny fel rhan o'r broses ymgeisio.

Cynghorir ymgeiswyr i nodi yn eu cais unrhyw gyfyngiadau ar yr amser y maent yn gallu neu'n fodlon ymrwymo i'r prosiectau, er enghraifft mewn perthynas ag ymrwymtiadau addysgu.

Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddod i'r diwrnod cynefino. Cynhelir y diwrnod cynefino yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2019. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgwyddo unrhyw gostau teithio neu gynhaliath.

A fydd angen cliriad diogelwch?

Gan mai dim ond cyfarfodydd achlysurol y bydd y Gymrawd yn eu mynychu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n annhebygol y bydd gofyn i ymgeiswyr gael archwiliad diogelwch. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei benderfynu fesul achos, yn dibynnu ar natur y gwaith.

Gall y broses o gynnal cliriad diogelwch gymryd hyd at dri mis. Felly, mae'n bosibl y bydd angen ystyried hyn wrth drafod y dyddiad cychwyn.

Sut y caiff y Cymrodoriaethau eu hariannu?

Disgwylir y bydd y Gymrawd yn cael ei ariannu, fel arfer, drwy ei sefydliad ei hun, naill ai drwy'r cyllid effaith sydd eisoes yn bodoli neu drwy ddyraniad y cytunir arno o'i amser ymchwil eu hun. Mae gwneud Cymrodoriaeth Academaidd gyda'r Cynulliad yn fuddiol i chi, gan fod hwn yn gyfle i chi ddangos bod eich ymchwil yn cael effaith uniongyrchol ar bolisiau, y broses o greu cyfreithiau a chraffu yng Nghymru.

Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, rydym yn fodlon trafod opsiynau ariannu eraill lle nad oes unrhyw gyllid ar gael gan y brifysgol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu darparu symiau bach o arian cyfatebol. Fodd bynnag, rhaid nodi mai cyllideb fach yw hon. Dylai ymgeiswyr nodi faint o arian sydd ei angen arnynt ar eu ffurflen gais. Mater i'r Gymrawd a'i sefydliad academaidd yw nodi sail y penderfyniad a wnaed ynghylch lefel y costau hynny. Yn gychwynnol, bydd eich cais yn cael ei asesu waeth beth yw'r sefyllfa o ran y cyllid sydd ar gael i chi. Os ydym o'r farn bod eich cais yn un a allai fynd ymlaen at y cam nesaf ond nid oes cyllid llawn ar gael gan eich sefydliad, byddwn yn trafod opsiynau cyllido gyda chi ar yr adeg honno.

Pa gostau fydd yn cael eu hysgwyddo?

Y corff neu fecanwaith cyllido a fydd yn ysgwyddo costau eich Cymrodoriaeth sy'n gyfrifol am benderfynu pa gostau a symiau a gaiff eu hariannu. Cyn cyflwyno cais, dylai ymgeiswyr drafod y mater hwn â'u prifysgol a chadarnhau'r sefyllfa.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgwyddo'r costau teithio a chynhaliath sydd ynghlwm wrth ddod i'r diwrnod cynefino ym mis Ionawr 2019. Dylech gadw pob derbynneb sy'n gysylltiedig â'ch taith - bydd y broses hawlio costau yn cael ei egluro yn y diwrnod cynefino.

Pwy sy'n berchen ar y deunydd?

Chi fydd yn berchen ar hawliau eiddo deallusol y deunydd y byddwch yn ei greu drwy eich Cymrodoriaeth, ac yn benodol ar gyfer y Gymrodoriaeth. Fodd bynnag, bydd y Cytundeb Cymrodoriaeth yn ei gwneud yn ofynnol ichi roi i'r Cynulliad drwydded i ddefnyddio'r deunydd a grëwyd gennych.

Bydd staff y Gwasanaeth Ymchwil yn cynnal trafodaethau cyson â Chymrodorion ynghylch y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r nodau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Gymrodoriaeth. Bydd Cymrodorion yn cael gwybodaeth ynghylch yr arddull a'r fformat gofynnol ar gyfer y deunydd. Bydd gofyn iddynt gyflwyno fersiynau drafft er mwyn cael sylwadau. Staff y Gwasanaeth Ymchwil fydd yn gwneud y penderfyniad golygyddol terfynol ynghylch unrhyw ddeunydd a grëir o ganlyniad i'r Gymrodoriaeth.

Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?

Bydd pob deunydd, gan gynnwys papurau briffio ymchwil, yn cael eu cyhoeddi, naill yn ystod y Gymrodoriaeth neu ar ôl iddi ddod i ben.

Bydd ambell gyfyngiad ar gyhoeddi deunydd sy'n deillio o'r Gymrodoriaeth, yn ychwanegol at y rhai y cytunir arnynt fel rhan o'r cynllun - caiff y cyfyngiadau hyn eu hegluro'n llawn yn y Cytundeb Cymrodoriaeth a wneir rhwng y Cynulliad, y brifysgol a'r Cymrawd llwyddiannus. Yn eu plith mae cyflwyno gwaith i'r Cynulliad i gael sylwadau ac i gael cymeradwyaeth cyn cyhoeddi deunydd.

O ran datganiadau i'r wasg, cyhoedduswydd neu unrhyw ddeunydd hyrwyddo arall, ni all y naill barti ddefnyddio enw'r llall, na'i logo, arwyddnod na brand nac enw'r cyflogai heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti hwnnw.

Cwestiynau Cyffredinol ynghylch yr Alwad Agored

A yw'n bosibl trafod rhai syniadau am brosiectau ar gyfer yr Alwad Agored gyda rhywun cyn cyflwyno cais?

Mae'r Alwad Agored yn gyfle i chi ein hargyhoeddi bod angen arnom yr ymchwil yr ydych yn ei gynnig. Rydym yn awyddus i gadw'r broses yn agored ac yn dryloyw, ac felly, ni allwn drafod cyflwyniadau gydag ymgeiswyr cyn y dyddiad cau.

Sut fyddaf yn gwybod a yw fy mhrosiect yn berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

Byddem yn annog ymgeiswyr i feddwl yn ofalus am y gwerth ychwanegol penodol y byddai eu prosiect yn ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sut y bydd Aelodau'r Cynulliad yn elwa o ganlyniad i'w cynnig.

Dyma rai enghreifftiau i'w hystyried wrth feddwl am sut y gall eich ymchwil arfaethedig arwain at werth ychwanegol:

- A yw eich cynnig yn berthnasol i ddarn o ddeddfwriaeth gyfredol neu ddarn o ddeddfwriaeth arfaethedig? Gallwch weld manylion yr holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried gan y Cynulliad [yma](#).
- A yw'ch cynnig yn gysylltiedig â maes polisi datganoledig? Os nad ydyw, pam ddylai hwn fod yn fater o bwys i Aelodau'r Cynulliad?
- A yw pwnc eich cynnig wedi cael ei drafod eisoes yn y Cynulliad? Darllenwch fwy drwy bori [Cofnod y Trafodion](#) yn y Cynulliad.
- A yw'ch cynnig yn ymwneud â phwnc a allai fod yn destun ymchwiliad gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn y dyfodol? Mae gwybodaeth am y materion sydd o ddiddordeb i Bwyllgorau'r Cynulliad ar eu [gwefannau pwrpasol](#).
- A yw'ch cynnig yn gysylltiedig â mater etholaethol?
- A yw'ch cynnig yn ymwneud â swyddogaeth benodol sy'n cael ei chyflawni gan y Cynulliad, neu weithgaredd y mae'n ei wneud fel rhan o'i rôl?
- A yw'ch cynnig yn cymharu dull polisi yng Nghymru â dulliau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU?